HUW ap RHYS WYN (fl. c. 1550), bardd ac aelod o deulu bonheddig

Enw: Huw ap Rhys Wyn
Priod: Catrin ferch Lewys ab Owain ap Meurig
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd ac aelod o deulu bonheddig
Maes gweithgaredd: Perchnogaeth Tir; Barddoniaeth; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Ray Looker

Mysoglen, Llangeinwen, sir Fôn; g r Catrin ferch Lewys ab Owain ap Meurig o'r Frondeg, Llangaffo. Cadwyd peth o'i farddoniaeth mewn llawysgrifau, ac yn ei phlith gywydd i ofyn cwch pysgota gan Thomas Glyn, Glynllifon, cywydd i henaint, a chywydd mwy anghyffredin ei destun, sef marwnad i'w hoff gi a elwid Bwrdi. Ceir hefyd ymryson rhyngddo â Rhydderch ap Rhisiart. Gwelir ei waith yn y llawysgrifau canlynol: Bodewryd MS. 2, Glyn Davies MS. 1, Llanstephan MS 118, Llanstephan MS 125, Mostyn MS. 160, NLW. MSS. 832, 9166. Ceir cywydd moliant iddo gan Dafydd Alaw yn Peniarth MS. 63 (132).

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms (Llandovery 1846), ii, 207

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 83

J. Fisher (gol.), *The Cefn Coch MSS. two MSS. of Welsh poetry written principally during the 17th century* (Lerpwl 1899), 7

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733221

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu